

## **Llythyr Cylch Gwaith CCAUC 2019/20: Atodiad 1 Diwygiedig (Ionawr 2020)**

Dyraniadau manwl ar gyfer Llinellau Gwariant Cyllideb CCAUC ar gyfer 2019-20 wedi'u nodi isod (£oedd):

	<b>2019-20</b>
Gwariant Refeniw CCAUC	£158,187,398
Dibrisiant CCAUC	£90,000
Gwariant Cyfalaf CCAUC	£10,000,000
Cyfanswm	£168,277,398

Mae gwariant refeniw CCAUC yn gyfuniad o'r llinellau cyllidebol canlynol a oedd ar waith yn y blynyddoedd ariannol blaenorol:

- Er Mwyn Ein Dyfodol;
- Costau rhedeg CCAUC;
- Derbyniadau CCAUC.

Y Cyngor sydd bellach yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar lefel y cyllid a ddyrennir i bob llinell gwariant. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn dal i ddisgwyl bod CCAUC yn darparu datganiad ar ddechrau'r flwyddyn ariannol ar lefel eu costau rhedeg ar gyfer y flwyddyn, yn ogystal â rhoi amcangyfrif o'r derbyniadau y mae'n disgwyl eu derbyn yn ystod y flwyddyn. Bydd angen i unrhyw ddiffygion yn y derbyniadau a ddisgwylir gael eu rheoli o fewn dyraniad cyllidebol cyffredinol CCAUC, oni chytunir fel arall gyda Llywodraeth Cymru yn ysgrifenedig.

Mae Llinell Gwariant Refeniw CCAUC yn cynnwys y dyraniadau ychwanegol canlynol:

- £5m i helpu i liniaru effaith y penderfyniad i rewi lefelau uchaf ffioedd dysgu;
- £5m i gefnogi cynllun i annog astudio ôl-radd yng Nghymru;
- £5m i ymestyn prentisiaethau gradd yng Nghymru.

Gwnaethpwyd darpariaeth o fewn cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer dyrannu adnodd cyfalaf o £10m yn 2019-20 i gefnogi cynigion gan sefydliadau sy'n hyrwyddo defnydd mwy effeithiol o'u hystadau.

### **Diweddariad Gorffennaf 2019**

Mae cyllid ychwanegol o £1,602,500 wedi'i ddyrannu i Linell Gwariant Refeniw CCAUC, fel y nodir isod:

- £104.5k i gefnogi datblygu rhaglen Arweinyddiaeth Weithredol Addysg Uwch (WHEELP) II ar gyfer Addysg Uwch ac Addysg Bellach;
- £118,000 i ymdopi â'r pwysau ychwanegol sy'n codi o ganlyniad i'r newidiadau i Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil;

- £1.3m i gefnogi cynllun cymhelliannau ôl-radd;
- £0.08m i gefnogi cynllun bwrsari i fyfyrwyr graddau Meistr sy'n 60 oed a throsodd.

### **Diweddariad Rhagfyr 2019**

Mae cyllid refeniw ychwanegol o £15m wedi'i ddyrannu i Linell Gwariant Refeniw CCAUC, i barhau i gefnogi'r diwygiadau sy'n codi o ymateb Llywodraeth Cymru i adolygiad Diamond ac argymhellion adroddiad Reid fel y nodir isod:

- £7.5m ar gyfer Cyllid Arloesi Ymchwil Cymru, gan gynnwys gwaith cenhadaeth ddinesig, er mwyn galluogi CCAUC i symud ymlaen â'r cynlluniau i ailgyflwyno cyllid ar gyfer arloesi a throsglwyddo gwybodaeth;
- £1.5m ar gyfer Llesiant a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth er mwyn galluogi sefydliadau i wella a rhannu arferion effeithiol mewn polisïau diogelu a helpu i gefnogi mentrau pellach i roi sylw i dlodi mislif;
- £6m i gefnogi datblygu ymchwil, drwy godi a chynnal lefelau cyllid ymchwil o ansawdd da ac ymchwil ôl-raddedig.

### **Diweddariad Ionawr 2020**

Mae cyllid refeniw ychwanegol o £532,898 wedi'i ddyrannu i Linell Gwariant Refeniw CCAUC, fel y nodir isod:

- £504,000 i dalu costau ychwanegol yn 2019-20 sy'n codi o'r cynnydd yn y lleoedd ar gyfer addysg feddygol;
- £28,898 i gefnogi ymchwil addysgol a wneir gan Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD).